



Cyngor i Lywodraeth Cymru ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y broses gyllidebu



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

Pwrpas y ddogfen hon

Cyllideb Llywodraeth Cymru yw'r penderfyniad (neu set o benderfyniadau) unigol mwyaf a gymerir gan gorff cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal â phenderfynu sut y cyllidir gwasanaethau cyhoeddus, mae proses y gyllideb a phenderfyniadau penodol yn anfon arwyddion pwysig am flaenoriaethau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus ac a yw'r blaenoriaethau hynny'n symud yn unol â'r uchelgais a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ("Deddf LICD").

Am fod y cyllideb yn set mor bwysig o benderfyniadau ar gyfer dyfodol Cymru, rwyf innau'n monitro ac yn asesu'r gyllideb ddrafft bob blwyddyn a darparu tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Eleni, yn ogystal â darparu trosolwg lefel uchel o gynnydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20, canolbwyntiais hefyd ar benderfyniadau cyllido sy'n ymwneud â thri phwynt: Iechyd Meddwl Datgarboneiddio, a Gofal Cymdeithasol, er mwyn rhoi dealltwriaeth fwy manwl i mi o gynnydd.

Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd gan Lywodraeth Cymru nifer o gyfleoedd i feddwl yn wahanol am benderfyniadau gwario: bydd Prif Weinidog newydd wedi'i sefydlu, a bydd Adolygiad Gwario gan Lywodraeth y DU'n digwydd. Bydd hefyd sawl rheidrwydd arnynt i weithredu'n wahanol – cyhoeddir eu Cynllun Darparu Carbon Isel cyntaf ym mis Mawrth 2019 a cheir disgwyliad y bydd y diffiniad o atal y cytunwyd arno ynghanol y cylch cyllido diwethaf yn cael ei ddefnyddio i ffurfio yn hytrach nag ymateb i gynlluniau gwario'r dyfodol.

Mae'r cyngor hwn i Lywodraeth Cymru'n cynnwys 10 argymhelliad ynghylch sut yr ydw i'n ystyried y dylent adeiladu ar y cynnydd a wnaed ganddynt yn y gyllideb ddrafft y tro hwn, i gymryd camau mwy uchelgeisiol a thrawsnewidiol o 2019 ymlaen. Gobeithio y bydd yr argymhellion hyn yn gosod y sylfaen y bydd ei angen ar y Llywodraeth i roi dull mwy beiddgar ar waith o drawsnewid strategaeth gyllido a gwneud penderfyniadau yn unol ag uchelgais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

A) Datblygu dull o wirio cynnydd flwyddyn ar ben blwyddyn er mwyn ystyried Deddf LICD yn y broses gyllido

Cyllideb ddrafft 2019-20 gan Lywodraeth Cymru yw'r drydedd a gyhoeddwyd ganddynt ers i Ddeddf LICD ddod i rym yn 2016. Ceir rhai arwyddion calonogol o gynnydd eleni, gan gynnwys strwythur y ddogfen yn unol â nodau llesiant y Llywodraeth, a'r ffaith fod diffiniad o atal yn cael ei gynnwys. Rwy'n gweld y newidiadau hyn fel 'newidiadau syml' sy'n gamau cyntaf o ran gweithio'n wahanol.

Serch hynny, mae'n parhau i fod yn anodd deall ble mae'r Ddeddf yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau buddsoddi gwahanol er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen cael mecanwaith i alluogi fy swyddfa i a rhanddeiliaid ehangach i allu tracio cynnydd flwyddyn ar ben blwyddyn ynghylch sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn wahanol o ganlyniad i'r Ddeddf, yn enwedig o ran sut y mae'r pum dull o weithio'n cael eu defnyddio i yrru'r broses o wneud penderfyniadau. Rwyf yn awgrymu y dylid seilio hyn ar 'Wiriwr Siwrnai', sy'n fodel a ddatblygwyd gan fy swyddfa i ddangos sut mae daioni'n edrych, o newidiadau syml i newid trawsnewidiol.

Diogelu'r Daith



Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda fy swyddfa i ddatblygu ‘Gwiriwr Siwrnai’ er mwyn gosod sut y dylai daioni edrych yn y modd y mae’r broses gyllidebu’n esblygu dros y 10 mlynedd nesaf o leiaf.

Fel yr esboniais, yn fy asesiad o gyllideb ddrafft 2019-20, archwiliais benderfyniadau buddsoddi yng nghyd-destun tri phwnc mewn cryn fanylder: Iechyd Meddwl, Datgarboneiddio, a Gofal Cymdeithasol, Dyma dri o’r chwe maes blaenoriaeth a amlinellwyd yn Ffyniant i Bawb (y tri arall yw Blynyddoedd Cynnar, Tai, a Sgiliau a Chyflogadwyedd).

Rwyf wedi ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid ynghylch y pynciau hyn a chafwyd ymdeimlad clir fod y Llywodraeth yn ffitio penderfyniadau sy’n bodoli eisoes i mewn i’r blaenoriaethau hyn yn hytrach na’u defnyddio fel cyfle i ystyried dulliau mwy integredig o fynd ati. Nid yw’n glir fod dull cyson ar waith ar draws y Llywodraeth at fuddsoddi mewn gweithgareddau ar sail tystiolaeth i ateb y blaenoriaethau hyn. Mae angen arweiniad sylweddol mewn Llywodraeth i sicrhau fod dull cyson yn cael ei weithredu yn ogystal â’r isadeiledd cywir yn y gwasanaeth sifil i gefnogi hyn. Ceir cyfle i Brif Weinidog newydd ateb hyn ac i’r Ysgrifennydd Parhaol adeiladu ar y strwythurau y mae hi’n eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwell dealltwriaeth a gweithredu o ran y Ddeddf.

Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud hi’n fwy eglur sut y mae’r chwe maes blaenoriaeth yn gyrru penderfyniadau gwahanol, drwy ystyried tueddiadau a senarios i’r dyfodol, gweithredu’n holistaidd y diffiniad o atal, a defnyddio cyfleoedd i wneud buddsoddiadau cydweithredol ar draws y system.

B) Defnyddio Adolygiad Gwario Llywodraeth y DU fel cyfle i gymryd camau pellach i gyfeiriad dull hirdymor o fynd ati

Am mai cyllideb 2019-21 yw'r olaf yn Adolygiad Gwario presennol y DU, cyfyng fu'r cyfleoedd i ailfeddwl yn sylfaenol am y buddsoddiadau. Rwyf eisiau defnyddio Adolygiad Gwario 2019 er mwyn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn achub ar y cyfle i ymateb i'r Adolygiad Gwario mewn ffyrdd sy'n gyson â Deddf LICD gan gynnwys rhoi ystyriaeth i:

- i. Sut y dylai tueddiadau a senarios y dyfodol fod yn dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi ar gyfer yr hirdymor;
- ii. Sut y dylai buddsoddi mewn atal fod yn digwydd ar draws y Llywodraeth; a
- iii. Sut y gellir hwyluso dulliau integredig, ar draws y system, o fynd ati drwy gyfrwng penderfyniadau cyllidebu.

Argymhelliad 3

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos sut y mae'n cymhwyso egwyddorion y Ddeddf wrth ymateb i Adolygiad Gwario Llywodraeth y DU yn 2019.

Mae Brexit a'r Adolygiad Gwario wedi creu llawer o ansicrwydd economaidd ac ariannol byrdymor, sydd, heb os, yn cyfyngu ar gynllunio hirdymor. Fel rhan o ddefnyddio'r Adolygiad Gwario i roi dulliau amgen ar waith, dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau er mwyn darparu ymrwymadau dros flynyddoedd lluosog i gyrff cyhoeddus. Mae hyn yn gyson â'r Fframwaith Ariannol a gytunwyd yn 2016 rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU i ddarparu 'cyllido teg ar gyfer yr hirdymor'.

Dylai hyn gynnwys ystyried sut y mae pwerau codi trethi newydd yn cael eu datblygu gan ddefnyddio egwyddorion Deddf LICD. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i'r modd y gallai treth gofal cymdeithasol gefnogi gwasanaethau ataliol, yn ogystal â chwrdd ag anghenion gofal mwy aciwt.

Mae gallu gweld cyllidebau am o leiaf 3-4 blynedd yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel peth hanfodol i gysylltu gwario sy'n hanfodol i gyflawni ymyriadau ataliol ac annog mwy o gydweithio ar draws gwasanaethau statudol a chyda'r drydedd sector. Er nad yw hyn yn dod heb ei heriau, o reidrwydd, mae Llywodraeth y DU wedi darparu setliadau 4 blynedd ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr ers 2016.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Adolygiad Gwario fel cyfle i archwilio opsiynau ar gyfer gwneud ymrwymadau gwario dros flynyddoedd lluosog i gyrff cyhoeddus.

C) Cymhwyso'r diffiniad o atal ar draws Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus

O ganlyniad i waith gyda'r drydedd sector a'm swyddfa i, rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys diffiniad o atal yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019-20, a'u bod wedi gwneud rhywfaith o waith cychwynol er mwyn cymhwyso'r diffiniad hyn i rai o linellau'r gyllideb.

Atal yw gweithio mewn partneriaeth i gyd-gynhyrchu'r deilliannau gorau posib, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoliadau i'w cyfrannu. Wrth dorri'r cyfan i lawr i bedwar lefel, gall pob lefel leihau'r galw ar gyfer y nesaf:

- Atal cynradd (AC) – adeiladu gwytnwch -- creu'r amodau ble nad yw problemau'n codi yn y dyfodol, Dull cyffredinol o fynd ati.
- Atal eilaidd (AE) – Targedu gweithredu i gyfeiriad meysydd ble mae risg uchel yn bodoli ble gallai problem ddigwydd. Dull a dargedwyd, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol*.
- Atal trydyddol (AT) – Ymyrryd unwaith y mae problem yn bodoli, i'w hatal rhag gwaethygu ac i'w rhwystro rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull ymyrrol o fynd ati.
- Gwario aciwt (GA) – Gwario, sy'n gweithredu er mwyn rheoli effaith sefyllfa negyddol iawn, ond sy'n gwneud fawr ddim neu ddim oll i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull adferol o fynd ati

* cyffredinoliaeth gynyddol yw'r penderfyniad i ddarparu cefnogaeth i bawb, gan roi llais a buddiant breintiedig i bawb a phopeth ynddo, ond gan gydnabod y bydd angen mwy o gefnogaeth gan y bobl neu'r meysydd hynny sydd ag anghenion uwch.

Ffynhonnell: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 Cynigion manwl

Mae fy ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn awgrymu bod croeso i'r diffiniad o atal, ond ar yr un pryd nad yw'r ffordd y mae'n cael ei gymhwyso i rai llinellau cyllideb yn ddigon gwydn na soffistigedig, ac nad yw'n darlunio cydbwysedd gwariant ar draws y Llywodraeth.

Er enghraifft, un o'r setiau llinellau cyllideb y cymhwysir y diffiniad iddo yw 'Gwasanaethau Cymdeithasol; o fewn i Brif Grŵp Gwariant (MEG) lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n cynnwys Gofal a Chefnogaeth Gymdeithasol, Partneriaeth ac Integreiddio, Comisiynydd Pobl Hŷn, a Gofal Cymdeithasol Cymru. Lefel y gwariant yw £34.9 miliwn, sef llai nag 1% o MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.


- Dosberthir 93% o'r £34.9 miliwn fel atal eilaidd yn y gyllideb fanwl. Prin yw'r wybodaeth a ddarperir ynghylch sut y cymhwyswyd y diffiniadau hyn.
- Dosberthir yr holl gyllid ar gyfer Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fel atal cynradd.
- Nid ymddengys fod gwariant ataliol o fewn i gyllido gofal cymdeithasol i awdurdodau lleol (£50 miliwn drwy gyfrwng Grant Arbennig i Awdurdodau Lleol o dan gyllideb lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Grant Cefnogaeth Refeniw o gyllideb Llywodraeth Leol) wedi cael ei gynnwys yn y ffigwr hwn. Oddi mewn i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fe all llawer o'r gwario ataliol ar wasanaethau cymdeithasol fod yn wariant gan awdurdodau lleol.

Mae'r enghraifft hon yn dangos fod y pum enghraifft o gategoreiddio gwariant ataliol a gynhwyswyd yn y gyllideb yn gweithredu dull silo o fynd ati, ac nid oes gan y Llywodraeth ddealltwriaeth glir o 'beth y maen nhw'n ceisio'i atal'. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn asesu dilysrwydd y dosbarthiad.

Ar lefel macro, ymddengys fod Llywodraeth Cymru wedi methu ag ystyried sut y gellid symud i gyfeiriad gwario ataliol drwy symud adnoddau oddi wrth wario aciwt yn y GIG i gyfeiriad gwasanaethau a rhaglenni sy'n bwysig er mwyn cadw pobl yn iach yn y lle cyntaf.

Awgryma tystiolaeth mai dim ond tua 15-20% o iechyd a llesiant cenedl sy'n ddibynnol ar wasanaethau gofal iechyd, ac eto dosberthir 50% o gyllideb Llywodraeth Cymru i wario ar iechyd – mae papur gan Lywodraeth Cymru at y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cymhwyso'r diffiniad o atal i wariant y GIG yng Nghymru ac mae'n amlinellu sut y mae 74% o'r gwariant hwnnw'n mynd ar wasanaethau aciwt ac 20% ar atal trydyddol – fel yr amlinellir yn y diagram isod.

Rhaniad canrannol y gwariant ar atal yng Ngwariant GIG Cymru



Ffynhonnell: 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20' ar gael [yma](#)

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru gymhwyso'r diffiniad o atal ar draws yr holl wariant mewn dull systematig a gwydn, gan ddiffinio'n glir yr hyn y maent yn ceisio'i atal a dangos llinell weledol glir drwy wario ar weithredoedd ar sail tystiolaeth ar draws y Llywodraeth. Dylent ystyried gweithio gyda sefydliadau ag arbenigedd yn y maes hwn i sicrhau fod eu dull o fynd ati'n effeithiol.

Un o elfennau allweddol y diffiniad o atal yw'r ffocws a roddir ar ba 'broblem' sydd angen cael sylw ar lefelau amrywiol o atal. Drwy gyfrwng fy asesiad o gyllideb ddrafft 2019-20, roedd hi'n glir nad oes dealltwriaeth integredig ar gael o ba rannau o'r Llywodraeth a'r gwasanaeth cyhoeddus ddylai fod yn derbyn buddsoddiad, er mwyn atal problemau mewn rhannau eraill o'r system. Yn fy marn i, mae hyn yn arbennig o wir am rôl llywodraeth leol:

“Mae llawer o awdurdodau'n adrodd eu bod yn ceisio canolbwyntio a buddsoddi mewn atal ac ymyrryd cynnar, sy'n dargyfeirio adnoddau oddi wrth y ddarpariaeth bresennol i wasanaethau. Mae gwasanaethau fel gofal seibiant a darpariaeth pryd ar glud dan fygythiad, Nid oes angen ymarfer y cyswllt rhwng gofal cymdeithasol a'r GIG yma, ond mae'r system gyfan yn gwegian wrth i wariant ar ofal cymdeithasol barhau i fod yn wastad mewn telerau go iawn am y ddegfed flwyddyn o'r bron.”

Ffynhonnell: Papur at Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Cyllideb Llywodraeth Cymru 2019-29' oddi wrth Gymdeithaso Llywodraeth Leol Cymru, o dan 'Gwasanaethau Cymdeithasol'

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i gyrff cyhoeddus eraill (yn enwedig llywodraeth leol a byrddau iechyd) i gymhwyso'r diffiniad o atal i'w gwariant, er mwyn adnabod y cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddi mewn atal cynradd ac eilaidd.

Bydd yn bwysig nad yw hyn yn cael ei weld fel 'ymarfer cyfrif mawr' sy'n dargyfeirio ymdrech oddi wrth gynllunio a gweithredu gwasanaethau mwy effeithiol ac ataliol.

D) Deall y cydbwysedd dymunol mewn buddsoddiad mewn dulliau ataliol o fynd ati ar draws y Llywodraeth, a gwreiddio dulliau ataliol o fynd ati yn unol â hynny

Bydd cymhwyso'r diffiniad o atal ar draws y Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yn gam cyntaf da, ond y cyfan y bydd hyn yn ei wneud fydd dweud wrthym faint sy'n cael ei wario ar atal ar hyn o bryd. Y cam nesaf yw bod y Llywodraeth yn deall yn well beth ddylai cydbwysedd y gwario fod, a beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer symud y gwario i gyfeiriad atal cynradd ac eilaidd.

Dyma faes heriol a fydd yn galw am gymryd golwg holistig ar draws yr holl system ar y 'problemau a ddylai fod yn cael eu hatal o ran atal cynradd, eilaidd a thrydyddol, yn ogystal â chanolbwyntio ar y 'deilliannau' y mae'r buddsoddi'n ceisio'i gyflawni.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried beth yw cydbwysedd gwariant gwell o ran atal cynradd, eilaidd a thrydyddol.

“Mae angen i ni arfogi ein plant â'r sgiliau, yr hyder a'r offer er mwyn iddyn nhw fod yn emosiynol wydn. Mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt, gan fynd i'r afael â hadau trybini cyn iddynt wreiddio... Ni fydd hyn yn cael ei gyflenwi drwy newid tameidiog. Mae'r gwahaniaeth rhwng prosesau, strwythurau, cyllido, diwylliant, gwybodaeth a hyfforddiant y chwaraewyr amrywiol – gan gynnwys iechyd, addysg, awdurdodau lleol, y drydedd sector a'r system cyfiawnder troseddol – yn golygu bod cael dull o fynd ati sy'n gysylltiedig yn hanfodol os yw'r weledigaeth o roi cefnogaeth sy'n canoli ar y plentyn yn mynd i gael ei gyflawni.”

Lynne Neagle AC, Cadeirydd: Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ffynhonnell: 'Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru (2018)'

“Drwy weithredu'n systematig arferion a rhaglenni a addysgir gan dystiolaeth sy'n gwneud yn fawr o wydnwch ac yn lleihau ffactorau risg, mae o fewn ein gafael i haneru'r niferoedd o bobl sy'n byw â phroblemau iechyd meddwl gydol oes o fewn cenhedlaeth.

Yr hyn sydd ei angen yw newid trawsnewidiol sy'n gwreiddio atal ymhob polisi ac ymarfer sy'n effeithio ar bobl ifanc.”

Ffynhonnell: 'Buddsoddi mewn Cenhedlaeth Wydn: Allwedd i Genedl Feddylol Ffyniannus', Comisiwn Polisi Iechyd Meddwl (2018)'

Cyhoeddwyd [‘Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru’](#) yn gynt eleni gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, i amlinellu’r newid mawr sydd ei angen mewn cefnogaeth emosiynol ac iechyd meddwl ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae’r adroddiad yn gwneud un argymhelliad trawsfwaol – bod yr her argyfyngus bellach i’w ganfod ar ‘ben blaen’ y llwybr gofal – llesiant emosiynol, gwytnwch ac ymyrraeth gynnar – ac y dylai mynd i’r afael â hyn fod yn flaenoriaeth genedlaethol a ddatganwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae [‘Buddsoddi mewn Cenhedlaeth Wydn: Allwedd i Genedl Feddyliol Ffyniannus’](#) yn adroddiad diweddar gan y Comisiwn Polisi Iechyd Meddwl sy’n amlinellu elfennau allweddol o ran y buddsoddiadau sydd angen eu gwneud er mwyn cael dull system gyfan o weithio er mwyn atal iechyd meddwl drwg. Er bod y ffocws ar iechyd meddwl, rydw i o’r farn fod y rhan fwyaf o’r negeseuon a’r gweithredoedd yn berthnasol i adeiladu gwytnwch o ran ystod o faterion llosg. Mae’r adroddiad yn galw ar i Lywodraeth y DU ddefnyddio cyfle’r Adolygiad Gwario 2019 i wreiddio atal ar draws pob un o’i Hadrannau, gan roi 16 gweithred benodol ar y gweill.

Mae gan y ddau adroddiad hwn negeseuon ac argymhellion pwysig ar gyfer y lefel o newid sy’n angenrheidiol ar gyfer cyflwyno atal ar draws y system gyfan.

Argymhelliad 8

Gan dderbyn argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cymhwyso’r gweithredoedd a amlinellwyd yn adroddiad Comisiwn Polisi Iechyd Meddwl, ‘Buddsoddi mewn Cenhedlaeth Wydn: Allwedd i Genedl Feddyliol Ffyniannus’ yn fewnol, yn enwedig o ran pa ran o’r Llywodraeth ddylai arwain yn strategol er mwyn sicrhau fod dull o weithredu ar draws y system yn cael ei roi ar waith o ran atal.

E) Sicrhau fod buddsoddiad mewn datgarboneiddio’nn adlewyrchu uchelgais

Rwy’n croesawu’r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi ychwanegol datgarboneiddio fel chweched blaenoriaeth yn Ffyniant i Bawb. Serch hynny, o ystyried y rhybudd diweddar gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd, mai 12 mlynedd sydd gennym i osgoi dymchweliad hinsawdd llwyr, nid wyf i’n ystyried fod y Llywodraeth yn buddsoddi digon mewn datgarboneiddio nac o ran cwrdd â’u targedau statudol i leihau allyriadau.


Amlinellwyd ystod o fuddsoddiadau mewn datgarboneiddio yng nghyllideb drafft 2019-20 ond prin oedd yr arwyddion fod ystyriaeth wedi cael ei roi i’r ffaith ai dyma’r buddsoddiadau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar leihau allyriadau, na ychwaith a fyddan nhw’n helpu i gyflawni’r targedau a osodwyd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf ym mis Mawrth 2019. Mae hi'n bwysig fod hwn yn gynllun uchelgeisiol, sy'n cynnwys gweithredoedd sy'n ein cael ni'n ôl ar y llwybr cul er mwyn cwrdd â'n targedau statudol i leihau allyriadau (gweler graff isod). Rwy'n disgwyl gweld mynegiant cliriach o'r gweithredoedd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar allyriadau, a phenderfyniadau cyllideb i gefnogi'r gweithredoedd hyn, yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 9

Llywodraeth Cymru i fynegi'n glir sut y bydd y gweithredoedd a amlinellir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn cael eu hariannu er mwyn i ni allu cwrdd â'n targedau statudol i leihau allyriadau.

Targedau statudol i leihau allyriadau



Mae angen hefyd i adrannau amrywiol y llywodraeth i fuddsoddi ar y cyd yn y cyfleoedd allweddol i ddatgarboneiddio. Er mai cyfyng yw grymoedd Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar allyriadau o'r sectorau Ynni a Diwydiant) sy'n gyfrifol am 63% o allyriadau Cymru), maen nhw'n gallu cyflymu cynnydd mewn sectorau eraill, gan gynnwys amaeth, gwastraff, trafndiaeth a thai / adeiladau.

- Mae Amaeth yn cyfrif am 12% o'r holl allyriadau. Er fy mod i'n cydnabod y darpar gyfleoedd a amlinellir yn ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir', yn enwedig o gwmpas y cynllun 'nwyddau cyhoeddus', mae'n annhebygol o gael effaith ar allyriadau tan o leiaf 2025 blwyddyn olaf o ail gyllideb garbon Cymru. Mae'n bwysig cydnabod y diffyg hwn mewn cyfraniadau, a'i adlewyrchu o ran ble bydd Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'i ffocws rhwng nawr a 2025 yng nghyd-destun datgarboneiddio.
- Mae Gwastraff yn cyfrif am 3% o allyriadau Cymru, felly er bod ei gyfraniad yn bwysig, mae'n gymharol fach o'i gymharu â sectorau eraill.

Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar weithredoedd o fewn trafndiaeth tai / adeiladau ac, yn fwy cyffredinol, trawsnewid i Gymru carbon isel. Dyma'r tri maes ble gall Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf (heddiw) wrth leihau allyriadau yng Nghymru.

Mae'n glir nad yw'r buddsoddiad arfaethedig yn y ffordd liniaru ar gyfer yr M4 y cefnogi'r trawsnewid i atebion trafndiaeth carbon isel, ac mae perygl go iawn yn bodoli y bydd Cymru'n cael trafferth i gwrdd â'i thargedau allyriadau statudol os bydd penderfyniadau polisi a gwario'n parhau fel hyn.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r 'darpar weithredoedd at 2030' a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad Llwybr Carbon Isel, ac ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad, yn awgrymu y dylid bod yn buddsoddi mewn pethau fel (ond heb eu cyfyngu i) trafndiaeth gyhoeddus a theithio iach, diwygio rheoliadau adeiladu a rhaglenni ôl-osod, cynhyrchu / datblygu ynni adnewyddadwy, ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.

Argymhelliad 10

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried ac yn amlinellu'r lefel o fuddsoddiad ar draws y Llywodraeth sydd ei angen i gwrdd â'n targedau, yn enwedig o ran:

- i. Trafndiaeth;
- ii. Tai / adeiladu;
- iii. Trawsnewid i Gymru carbon isel.